



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymru Fwy Cyfartal

Paratoi ar gyfer cychwyn y  
Ddyletswydd Economaidd-  
gymdeithasol:

Canllawiau anstatudol

# Cynnwys

---

## **Cyflwyniad**

3

---

## **Y cyd-destun polisi**

4

---

## **Y cefndir deddfwriaethol**

5

---

## **Diffinio'r termau allweddol**

6

---

## **Y cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt**

11

---

## **Cyflawni'r ddyletswydd wrth gomisiynu gwasanaethau**

12

---

## **Cyflawni'r ddyletswydd wrth weithio mewn partneriaeth**

13

---

## **Paratoi ar gyfer y ddyletswydd**

13

---

## **Cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd**

14

---

## **Defnyddio prosesau sy'n bodoli eisoes i gyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd**

14

---

## **Atodiadau**

15

---

## **Y sefyllfa ehangach o ran cydraddoldeb yng Nghymru**

16

# Cyflwyniad

**Bydd y ddyletswydd yn ysgogi penderfyniadau gwell ac yn y pen draw yn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y bobl hynny sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ('y ddyletswydd') ar 29 Medi 2020. Nod y canllawiau hyn yw helpu cyrff cyhoeddus y disgwylir i'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt ('cyrff cyhoeddus perthnasol') i baratoi ar gyfer y dyddiad hwnnw. Roedd yr ymgynghoriad Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ceisio barn ynghylch y cyrff cyhoeddus hynny y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Mae Pennod 5 yn cynnwys rhestr arfaethedig o gyrff cyhoeddus perthnasol. Bydd rhestr derfynol o'r cyrff cyhoeddus perthnasol yn cael ei chyhoeddi yn y Rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig a fydd yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â chychwyn y ddyletswydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, ac felly mae am annog arloesi wrth baratoi i gyflawni'r ddyletswydd, gan groesawu dulliau gwahanol. Rydym yn gwybod bod llawer o waith eisoes yn cael ei wneud i leihau anghydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus, ac mae Llywodraeth Cymru a'r canllawiau hyn yn bwriadu adeiladu ar y sylfaen gref honno.

Mae'r canllawiau hyn yn anstatudol ac maent wedi cael eu llywio gan yr ymgynghoriad a'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ledled Cymru. Maent wedi cael eu llunio ar y cyd â chynrychiolwyr y cyrff y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt, y TUC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda chyrff cyhoeddus perthnasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y TUC a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cyrff trydydd sector a'r rheini sydd â phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol i ddatblygu canllawiau statudol i gyd-fynd â chychwyn y ddyletswydd, llunio deunyddiau ategol a chreu cyfleoedd ar gyfer rhannu dysgu.

**Yn benodol dylai'r ddogfen hon gael ei hystyried gan y canlynol:**

**Penderfynwyr strategol:** aelodau byrddau a phwyllgorau, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol;

**Uwch-arweinwyr:** prif weithredwyr, cadeiryddion a phenaethiaid gwasanaeth;

**Rheolwyr systemau:** asesu effaith, datblygu prosiectau, caffael, llywodraethu, cyllid ac ymgysylltu;

**Arweinwyr llywodraethu a chydymffurfio;** ac **Arweinwyr polisi.**

## Y cyd-destun polisi

Mae ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i achosi ansicrwydd aruthrol, yn benodol mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol. Mae degawdau o fod yn aelod o'r UE wedi creu gwaddol o fanteision sy'n ymwneud â sawl agwedd ar fywyd beunyddiol yng Nghymru, Er enghraifft, hawliau cyflogaeth, hawliau amgylcheddol a rheoliadau iechyd a diogelwch.

Mewn ymateb i alwadau gan lawer o randdeiliaid i Lywodraeth Cymru weithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun ymadael â'r UE, mae nifer o ddarnau o waith yn mynd rhagddynt – ac mae cychwyn y ddyletswydd yn un ohonynt. Yn fras, mae hyn yn golygu y byddwn ni yng Nghymru yn defnyddio ein pwerau i leihau anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ymrwymodd Prif Weinidog Cymru i gychwyn Rhan 1, adrannau 1 – 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>1</sup> (“the 2010 Act”) – ‘Deddf 2010’ – y ddyletswydd, pan gafodd ei benodi ym mis Rhagfyr 2018. Ar 11 Mehefin 2019, gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ynghylch Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Dywedodd:

“ Er mwyn dangos ac ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i egwyddorion Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i ystyried opsiynau ar gyfer diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Byddai'r gwaith hwn yn dechrau drwy gychwyn ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal â gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adolygu a chryfhau rheoliadau Cymru ar gyfer Dyletswydd Dydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Parhaodd yr ymgynghoriad am wyth wythnos, gan ddod i ben ar 17 Ionawr 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn casglu safbwyntiau ar gynnig Llywodraeth Cymru i gychwyn y ddyletswydd, yn gofyn pa gyrff cyhoeddus y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt a sut y dylai'r ddyletswydd gael ei chyflawni.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 98 ymateb, a daeth 140 o bobl i ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru. Roedd yr ymatebion yn dangos cryn gefnogaeth i'r ddyletswydd ac un syniad poblogaidd a ddaeth i'r amlwg oedd y dylai cyrff nad ydynt wedi eu rhestru yn y ddeddfwriaeth ‘ddilyn egwyddorion y ddyletswydd.

Fodd bynnag, lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch yr amser yr oedd ganddynt i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd – wedi'i gynllunio ar gyfer 1 Ebrill 2020 yn wreiddiol, gyda nifer yn gofyn am ‘gyfnod arwain’ hwy.

Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip wedi gwrandao ar farn rhanddeiliaid ac eisiau sicrhau bod y cyrff cyhoeddus perthnasol mor barod â phosibl cyn i'r ddyletswydd ddod i rym. I gydnabod hyn, ac mewn ymateb i natur **ddigynsail argyfwng y Coronafeirws (COFID 19)** cytunwyd ar ddyddiad diwygiedig i'r ddyletswydd ddod i rym. Bydd y ddyletswydd nawr yn dod i rym ar **31 Mawrth 2021**.

1. <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-11/cymru-fwy-cyfartal-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol.pdf>

# Y Cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn fframwaith cyfreithiol sydd â'r nod o gysoni ac atgyfnerthu'r gyfraith ar wahaniaethu, gan helpu i greu cynnydd o ran cydraddoldeb. Mae'n ailgyflwyno sawl deddf ac yn dod â nhw at ei gilydd, gan gynnwys Deddf Cyflog Cyfartal 1970<sup>2</sup>, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976<sup>3</sup> a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995<sup>4</sup>. Mae'n ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn y rheini sydd â nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf. Mae Deddf 2010 hefyd yn gosod dyletswydd 'sylw dyledus' (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus<sup>5</sup>) ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb yn ystyriaeth allweddol i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau.

Er i Ddeddf 2010 ddod i rym ar 8 Ebrill 2010, roedd Rhan 1 – y Ddyletswydd, yn segur ar y llyfr statud, gan na wnaeth naill ai Llywodraeth y DU na'r deddfwrfeydd datganoledig ddewis ei chychwyn.

Roedd Deddf Cymru 2017 yn deddfu ar gyfer model newydd o ddatganoli i Gymru, a oedd yn cynnwys datganoli'r pŵer i gychwyn y ddyletswydd yng Nghymru. Mae adran 45 o Ddeddf Cymru 2017<sup>6</sup>, er mwyn cyflawni hynny. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn adrannau 1 – 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

## ADRAN 1

mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n rhestru'r cyrff y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt, ac mae'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion gyhoeddi canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus perthnasol yn hynny o beth.

## ADRAN 2

yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan enwi'r cyrff cyhoeddus hynny y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Wrth benderfynu pa gyrff sy'n 'gyrff cyhoeddus perthnasol', rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a yw pob awdurdod yn bodloni'r meini prawf a bennir yn adran 2(6) o Ddeddf 2010.

## ADRAN 3

yn egluro na fydd y ddyletswydd yn creu unrhyw hawliau traddodadwy newydd i unigolion.

**I grynhoi, felly, mae gofynion statudol y ddyletswydd yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff perthnasol, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**

**Noder bod adran 1(6) o Ddeddf 2010 yn dweud nad yw'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghydraddoldebau a brofir gan y rheini sy'n destun rheolaeth fewnfudo.**

Nod y ddyletswydd yw ategu yn hytrach na disodli neu gystadlu â dyletswyddau statudol eraill sydd ar gyrff cyhoeddus perthnasol, er enghraifft Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â dyletswyddau statudol eraill i'w gweld ym Mhennod 11.

Nid oes dyletswydd adrodd ynghlwm wrth y ddyletswydd, ond mae'n ddyletswydd statudol, a dylai cyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gallu dangos sut y maent wedi'i chyflawni. Pan fydd y ddyletswydd wedi'i chychwyn, os yw penderfyniad gan gorff cyhoeddus perthnasol yn cael effaith andwyol ar fuddiannau unigolyn neu grŵp, ac os yw'r unigolyn neu'r grŵp yn teimlo na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd, mae'n bosibl y bydd yn gallu gwneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod.

2. [http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/41/pdfs/ukpga\\_19700041\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/41/pdfs/ukpga_19700041_en.pdf)

3. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/74/enacted>

4. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/50/contents>

5. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149>

6. <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/contents/enacted>

# Diffinio'r termau allweddol

(Gweler yr adran ar Sylw Dyledus isod).

Mae'r testun isod yn edrych ar yr amryw ddiffiniadau o'r termau allweddol ym Mhennod 3.

## DYMA NHW:

1. Penderfyniadau strategol eu natur;
2. Sylw dyledus;
3. Anfantais economaidd-gymdeithasol;
4. Anghydraddoldebau o ran canlyniadau.

Mae'r diffiniadau hyn wedi cael eu datblygu o waith polisi a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru, drwy drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac ystyried canllawiau perthnasol o rannau eraill o'r DU. Byddant yn cael eu defnyddio o fewn y canllawiau statudol a fydd yn cael eu llunio gan Weinidogion Cymru i helpu cyrff cyhoeddus perthnasol i gyflawni eu dyletswydd o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig hon.

## PENDERFYNIADAU STRATEGOL EU NATUR

### DIFFINIAD:

Ar y cyfan, penderfyniadau strategol fydd y rheini sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei ddiben statudol bwriadedig (ei swyddogaethau mewn perthynas â'r set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol, ac ni fydd yn cynnwys penderfyniadau rheolaidd o ddydd i ddydd.

I rai cyrff cyhoeddus perthnasol, mae'n bosibl mai'n flynyddol y bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud, mewn achosion eraill, bydd angen eu gwneud yn amlach.

Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i **benderfyniadau strategol** newydd ac wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol. Noder nad yw'r ddyletswydd yn ôl-weithredol, sy'n golygu nad oes rhaid i gyrrff cyhoeddus perthnasol roi sylw dyledus i benderfyniadau a wnaed cyn iddi gael ei chychwyn h.y. 29 Medi 2020.

Isod mae rhai enghreifftiau (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr) o benderfyniadau strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus:

- ✓ Cyfeiriad a bwriad strategol
- ✓ Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- ✓ Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- ✓ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- ✓ Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- ✓ Cynllunio ariannol strategol
- ✓ Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- ✓ Datblygu polisiâu strategol.

## SYLW DYLEDUS

### DIFFINIAD:

Rhoi sylw i fater penodol mewn ffordd sy'n gymesur â'i berthnasedd.

Mae sylw dyledus yn gysyniad cyfreithiol sefydledig yn y gyfraith ar gydraddoldeb. Dylai fod gan gyrrff cyhoeddus perthnasol ddealltwriaeth dda o'r cysyniad sylw dyledus, a hynny mewn perthynas â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'n golygu y dylai'r pwysigrwydd a roddir i fater penodol fod yn gymesur â'i berthnasedd. Byddem yn disgwyl i'r un egwyddorion fod yn berthnasol i'r ddyletswydd hon.

Byddai Llywodraeth Cymru yn annog cyrff cyhoeddus perthnasol i sicrhau eu bod yn gallu dangos bod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y ddyletswydd, a dylent ddeall yn llawn effaith debygol penderfyniadau o'r fath er mwyn rhoi sylw dyledus i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dylid defnyddio'r arferion presennol a ddefnyddir i ddangos tystiolaeth. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys prosesau asesu effaith, systemau ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned a defnyddio tystiolaeth a data lleol.

Yn yr un modd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, caiff unigolyn neu grŵp wneud cais am adolygiad barnwrol yn erbyn corff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddo, os yw'n credu nad yw wedi ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddangos sut maent yn cyflawni'r gofyniad statudol, ac felly argymhellir y dylai cyrff cyhoeddus perthnasol ddangos trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan Ddeddf 2010. Dangos sylw dyledus – chwe chwestiwn defnyddiol i'w gofyn:

1. Pa tystiolaeth sydd wedi cael ei hystyried wrth baratoi ar gyfer y penderfyniad, a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?
2. Beth mae pobl a chymunedau'n dweud wrthym? (Gan gynnwys y rheini sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywyd).
3. Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu am effeithiau gwirioneddol neu debygol y penderfyniad mewn perthynas ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?
4. A yw anfantais yn yr achos hwn yn effeithio ar rai cymunedau buddiant neu gymunedau lle yn fwy na'r lleill?
5. Beth mae'n hasesiad effaith yn dweud wrthym am rywedd, ethnigrwydd, anabledd a nodweddion gwarchoddedig eraill y mae'n bosibl y bydd rhaid inni eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?
6. Pa dystiolaeth sydd gennym eisoes am y cynnig sy'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol?

## CYFEIRIADAU DEFNYDDIOL:

Gellir defnyddio Brown Principles<sup>7</sup> i benderfynu a yw sylw dyledus wedi cael ei roi. Mae Making Fair Financial Decisions<sup>8</sup> (EHRC, 2019) yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am 'The Brown Principles'. Yn ogystal, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Wneud Penderfyniadau Da<sup>9</sup> yn cyfeirio at yr egwyddor sylw dyledus ac yn helpu cyrff cyhoeddus perthnasol i wneud penderfyniadau da sy'n gyfreithlon ac yn cydymffurfio â'r rheol gyfreithiol:

1. Rhaid sicrhau bod penderfynwyr yn gwybod am eu cyfrifoldeb i roi 'sylw dyledus' i amcanion y ddyletswydd.
2. Mae'r gofyniad o ran 'sylw dyledus' yn cael ei fodloni cyn a phryd y mae polisi penodol a fydd yn effeithio, neu a allai effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael ei ystyried, a hefyd ar yr adeg y gwneir y penderfyniad. Mae sylw dyledus yn golygu gweithredu mewn ffordd ymwybodol a mabwysiadu meddylfryd ymwybodol.
3. Nid yw ceisio dangos bod penderfyniad yn gyson â chyflawni'r ddyletswydd, pan na chafodd ei hystyried cyn gwneud y penderfyniad, yn ddigon i gyflawni'r ddyletswydd.
4. Rhaid arfer y ddyletswydd mewn modd sylweddol a chadarn, a chyda meddwl agored mewn ffordd sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol. Rhaid integreiddio'r ddyletswydd, yn hytrach na dim ond ticio blychau.
5. Ni ellir dirprwyo'r ddyletswydd, a bydd y corff y mae'n berthnasol iddo yn parhau i fod yn gyfrifol amdani.
6. Mae'r ddyletswydd yn un barhaus.
7. Mae'n arfer da i'r rheini sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus gadw cofnod cywir sy'n dangos eu bod wedi ystyried y ddyletswydd. Os na chedwir cofnodion, mae'n bosibl y bydd yn fwy anodd i gyrff ddarparu tystiolaeth i ddarbwyllio llys ei fod wedi cyflawni'r ddyletswydd.

7. R. (Brown) v. Secretary of State for Work and Pensions [2008] EWHC 3158.

8. <https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/making-fair-financial-decisions>

9. <https://law.gov.wales/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/?lang=en#/constitution-government/public-admin/intro-admin-law/welsh-government-guidance-on-making-good-decisions/?tab=overview&lang=en>



Mae Gunning Principles<sup>10</sup> a ddangosir isod, yn amlinellu pedair egwyddor ar gyfer ymgynghori mewn ffordd briodol, a gellir eu defnyddio i helpu cyrrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn deg wrth wneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori.

#### **EGWYDDOR 1**

Rhaid i ymgynghori gael ei gynnal pan fydd y cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol.

Ni ddylech fod wedi gwneud eich penderfyniad eisoes.

#### **EGWYDDOR 2**

Rhaid rhoi rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ddeallus ac ymateb.

A yw pobl wedi cael yr wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?

#### **EGWYDDOR 3**

Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyried ac ymateb.

A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?

#### **EGWYDDOR 4**

Rhaid ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad mewn modd cydwybodol wrth wneud y penderfyniad terfynol.

## **ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

### **DIFFINIAD**

Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.

Gall **anfantais gymdeithasol-economaidd** fod yn anghymesur mewn cymunedau buddiant a hefyd mewn cymunedau lle, gan arwain at fwy o **anghydraddoldeb o ran canlyniadau**, ac mae croestoriadedd yn gallu dwysáu hynny

### **Cymunedau buddiant**

gellir ystyried bod pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn gymunedau buddiant.

Grwpiau ydynt sydd â phrofiad cyffredin, er enghraifft, pobl sydd wedi bod yn ddirgaref, sydd â phrofiad o'r system iechyd a gofal cymdeithasol, neu o wasanaeth lleol. Mae'n debygol, felly, y bydd pobl yn rhan o sawl cymuned buddiant.

Yn yr un modd, gall pobl sydd â'r un hunaniaeth fod yn gymunedau buddiant hefyd, er enghraifft, unig rieni a gofalwyr.

### **Cymunedau lle**

yn cyfeirio at bobl sydd â chysylltiad â'i gilydd oherwydd y lle y maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser ynddo mewn ffyrdd eraill.

### **Croestoriadedd**

Mae'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yn diffinio croestoriadedd fel hyn – y ffordd y mae strwythurau grym sy'n seiliedig ar ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn arwain at anghydraddoldeb, gwahaniaethu a gormes. Yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhywedd, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol a hefyd, yn aml, at sawl profiad neu anfantais o'r fath.

Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Nid yw anfantais gymdeithasol-economaidd yn parchu ffiniau trefol a gwledig, ac mae sawl agwedd ar fywyd beunyddiol yn gallu dwysáu'r anfantais honno, er enghraifft:**

### **Yn aml, ceir tldi cudd mewn cymunedau llai**

gall costau byw a mynediad at drafnidiaeth, addysg a chyflogaeth gael effaith fwy negyddol ar boblogaethau gwledig.<sup>11</sup> Mae ymchwil wedi dangos bod mwy o risg o anfantais mewn ardaloedd gwledig os yw mynediad at wasanaethau yn cael ei gynnwys wrth fesur tldi<sup>12</sup>.

10. <https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/The%20Gunning%20Principles.pdf>

11. <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf>

12. <https://senedresearch.blog/2018/03/16/poverty-in-wales-are-we-getting-the-full-picture/>



Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru:

**“ Yn gyffredinol, mae gan ardaloedd adeiledig neu drefol ganran uwch o bobl sy'n wynebu amddifadedd materol nag ardaloedd eraill: mae 18% o bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol (sef ardaloedd sydd â mwy na 10,000 o drigolion) yn ddfreintiedig o'i gymharu ag 13% mewn ardaloedd gwledig.<sup>13</sup>**

Mae amrywiadau rhanbarthol yn dangos faint o waith cyflog isel sydd mewn ardaloedd gwledig, ac mewn rhai o ardaloedd diwydiannol Cymoedd y De. Yn ardaloedd pump o gyrff cyhoeddus Cymru – Blaenau Gwent, Sir Benfro, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy – mae mwy na 30% o'r gweithwyr yn cael llai na'r Cyflog Byw gwirfoddol. Ar y pegwn arall, mae rhyw 20% o'r gweithwyr yn ardaloedd Caerffili, Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot yn cael llai na'r Cyflog Byw gwirfoddol.<sup>14</sup>

Mae ffynonellau data ac ymchwil ar anfantais gymdeithasol- economaidd i'w gweld yn yr adran nesaf.

## ANGHYDRADDOLDEB O RAN CANLYNIADAU

### DIFFINIAD:

Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn cyfeirio at wahaniaethau mesuradwy rhwng y canlyniadau ar gyfer y bobl hynny sydd wedi profi anfantais gymdeithasol-economaidd a gweddill y boblogaeth.

Bydd cyrff cyhoeddus perthnasol mewn sefyllfa i ddylanwadu ar anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd – dylent fod yn deall lle y gallant gael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Mae sawl ffordd i gyrff cyhoeddus perthnasol feithrin yr ymwybyddiaeth hon. Bydd amrywiaeth dystiolaetharall ar gael iddynt eisoes, gang ynnwys:

- **Data blynyddol ar gyflogaeth a gyhoeddir o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus<sup>15</sup>**
- **Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol A yw Cymru'n Decach?**
- **Fframwaith mesur y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol<sup>16</sup>, setting the indicators for Is Wales Fairer?**
- **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru<sup>17</sup>**
- **Ystadegau sydd ar gael oddi wrth StatsCymru<sup>18</sup> a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>19</sup>**
- **Adroddiad Llesiant Cymru<sup>20</sup> gan Lywodraeth Cymru**
- **Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol<sup>21</sup> gan Chwarae Teg**
- **Adroddiad Cyflwr y Genedl gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.<sup>22</sup>**

Bydd rhai cyrff cyhoeddus yn gallu casglu tystiolaeth drwy eu haelodaeth o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, er mwyn cynnal asesiadau o lesiant lleol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant lleol.

Mae dyletswydd hefyd ar rai cyrff cyhoeddus o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i bennu amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Byddant yn gallu defnyddio tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda wrth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny.

Gall cyrff cyhoeddus perthnasol hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a chymunedau yr effeithir arnynt gan anfantais gymdeithasol-economaidd er mwyn llywio penderfyniadau strategol, er enghraifft, drwy ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu.

13. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/national-survey-wales-2017-18-poverty-deprivation.pdf>

14. <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/national-survey-wales-2017-18-poverty-deprivation.pdf>

15. <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Public-Sector-Equality-Duty>

16. <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/measurement-framework-equality-and-human-rights>

17. <https://gov.wales/future-trends-2017>

18. <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue>

19. <https://www.ons.gov.uk/>


20. <https://gov.wales/well-being-wales-2019>

21. <https://chwaraeteg.com/projects/gender-equality-review/#phase-two>

22. <https://www.olderpeoplewales.com/en/reviews/SOTN.aspx>

Mae cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau yn allweddol er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud a'u bod yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Mae angen i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb o ran canlyniadau ar gyfer pobl sy'n dioddef anfantais gymdeithasol-economaidd.



# Y cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy gyfrwng rheoliadau, y cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt.

## MAE ADRAN 2(4) YN DWEUD:

### (4)...

Welsh Ministers may by regulations amend section 1 so as to:

- **add a relevant authority to the authorities that are subject to the duty under subsection (1) of that section;**
- **remove a relevant authority from those that are subject to the duty;**
- **make the duty apply, in the case of a particular relevant authority, only in relation to certain functions that it has;**
- **in the case of a relevant authority to which the application of the duty is already restricted to certain functions, remove or alter the restriction.**

Fodd bynnag, mae prawf yn adran 2 (6) o'r Ddeddf y gellir ei ddefnyddio i benderfynu pa gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sy'n gymwys i gael eu cynnwys yn y rhestr o gyrff yn adran 1 (3) o Ddeddf 2010 y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddyn.

## MAE ADRAN 2(6) O'R DDEDDF YN DWEUD:

### (6)...

For the purposes of the power conferred by subsection (4) on the Welsh Ministers, "relevant authority" means [a devolved Welsh authority (within the meaning given by section 157A of the Government of Wales Act 2006) whose functions correspond] or are similar to those of an authority for the time being specified in subsection (3) of section 1 or referred to in subsection (4) of that section.

Mae hyn yn golygu, felly, er mwyn i'r ddyletswydd fod yn berthnasol i gorff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, bod yn rhaid bod ganddo swyddogaethau sy'n cyfateb, neu sy'n dedbyg i'r rheini sydd gan awdurdod o dan is-adran (3) o adran 1.

Yn wreiddiol, roedd y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 1(3) o Ddeddf 2010, a oedd yn berthnasol i Loegr, yn pennu'r cyrff a ganlyn:

- **un o Weinidogion y Goron;**
- **un o adrannau'r Llywodraeth heblaw'r Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth**
- **Cudd-wybodaeth Gyfrinachol neu Bencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth;**
- **cyngor sir neu gyngor dosbarth yn Lloegr;**
- **Awdurdod Llundain Fwyaf;**
- **cyngorau bwrdeistref Llundain;**
- **Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod lleol;**
- **Cyngor Ynysoedd Scilly;**
- **Awdurdod Iechyd Strategol a sefydlwyd o dan adran 13 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, neu a oedd yn parhau i fodoli yn rhinwedd yr adran honno;**
- **Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno, neu a oedd yn parhau i fodoli yn rhinwedd yr adran honno;**
- **asiantaeth datblygu rhanbarthol a sefydlwyd gan Ddeddf Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol 1998;**
- **awdurdod heddlu a sefydlwyd ar gyfer ardal yn Lloegr.**

Wrth i Ddeddf 2010 fynd ar ei thaith drwy Dŷ'r Cyffredin, dywedodd y Cyfreithiwr Cyffredinol, Vera Baird, wrth gyfeirio at adran 1 (3) o'r Ddeddf honno:

**Dyletswydd newydd ydyw sy'n berthnasol i nifer cyfyngedig o sefydliadau [...] ac nid yw'n rhestr hir oherwydd bwriedir iddi fod yn berthnasol i sefydliadau lefel uchel yn unig sy'n gwneud penderfyniadau strategol.**

Mae disgwyl i'r cyrff cyhoeddus Cymreig canlynol fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, gan y bernir eu bod yn bodloni'r prawf a nodir yn adran 2(6) o Ddeddf 2010:

- **Gweinidogion Cymru**
- **Awdurdodau Lleol**
- **Byrddau Iechyd Lleol**
- **Ymddiriedolaethau GIG**
- **Awdurdodau Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig)**
- **Awdurdodau Tân ac Achub**
- **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**
- **Awdurdod Refeniw Cymru.**

Fel yr esboniwyd ym mhennod 1, bydd rhestr wedi'i chadarnhau o gyrff cyhoeddus perthnasol yn cael ei chyhoeddi yn y Rheoliadau a'r canllawiau statudol cyfatebol a gaiff eu cyhoeddi pan fydd y ddyletswydd yn cael ei chychwyn.

## Cyflawni'r ddyletswydd wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau

Gan mai dim ond i gyrff cyhoeddus a enwir y mae'r ddyletswydd yn berthnasol, mae'r ddyletswydd yn aros gyda'r cyrff hynny. Felly, nid yw'r ddyletswydd yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti wrth gaffael, comisiynu neu roi gwasanaethau ar gontractau allanol.

Ond ar ôl dweud hynny, o dan amgylchiadau pan fo corff cyhoeddus perthnasol o'r farn bod y ddyletswydd yn berthnasol i'r gweithgarwch hwnnw, rhaid i'r corff cyhoeddus perthnasol ystyried sut y mae trefniadau o'r fath yn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd.

## Cyflawni'r ddyletswydd wrth weithio mewn partneriaeth


Pan fo corff perthnasol yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt, dim ond i'r corff perthnasol y mae'r ddyletswydd yn gymwys.

Er enghraifft, mae cynlluniau llesiant lleol yn cael eu datblygu ac yn cael eu perchenogi gan amrywiaeth o bartneriaid, ond dylai'r cyrrff cyhoeddus perthnasol hynny y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt sicrhau eu bod yn cyflawni'u ddyletswydd drwy ystyried sut y bydd yr elfennau o'r cynllun y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd.

Anogir pob corff cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi ysbryd y ddyletswydd.

## Paratoi i gyflawni'r ddyletswydd

Wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd, argymhellir bod cyrrff cyhoeddus perthnasol yn dilyn y camau isod:



# Cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd

Ceir enghraifft isod o sut y gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio pum cam i gyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd.

## CAM 1: CYNLLUNIO

A yw'r penderfyniad yn benderfyniad strategol?

## CAM 2: TYSTIOLAETH

Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais gymdeithasol-economaidd ac anghydraddoldeb posibl o ran canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?

A ydych wedi cysylltu a thrafod gyda'r rheini yr effeithir arnynt gan y penderfyniad?

A ydych wedi ystyried cymunedau a manau buddiant?

## CAM 3: ASESU A GWELLA

Beth yw prif nodau ac effeithiau posibl y cynnig?

Sut y gellid ailwampio neu wella'r cynnig er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd?

## CAM 4: PENDERFYNWYR STRATEGOL

Diben y cam hwn yw galluogi penderfynwyr i gadarnhau bod sylw dyledus wedi'i roi, er enghraifft, cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, aelodau byrddau a phwyllgorau. Dylent fodloni eu hunain bod y corff wedi deall y dystiolaeth a'r effaith debygol, a'i fod wedi ystyried a ellir newid y polisi er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau ac achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd.

## CAM 5:

Y cam hwn yw'r broses o ddarparu dystiolaeth a chofnodi sut y cafodd 'sylw dyledus' ei roi. Dylai newidiadau i'r penderfyniad gael eu gwneud a'u cofnodi yn ystod y cam hwn.

# Defnyddio prosesau sy'n bodoli eisoes i gyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd

Fel y nodir o dan 'sylw dyledus' yn adran 4, dylai cyrff cyhoeddus perthnasol ystyried sut y maent yn sicrhau bod y ddyletswydd yn rhan annatod o brosesau sy'n bodoli eisoes. Gellid ystyried cyfleoedd i wneud hynny drwy:

- **Fynd ati i asesu effaith mewn ffordd integredig;**
- **Mabwysiadu ffordd fwy eang o gynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, gan wneud hynny hefyd mewn perthynas ag anfantais gymdeithasol-economaidd;**
- **Datblygu fframweithiau craffu sy'n cynnwys craffu ar yr effaith ar anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd;**
- **Cynllunio ac adrodd mewn ffordd integredig;**
- **Datblygu ffyrdd integredig o fesur perfformiad;**
- **Ystyried atal anghydraddoldeb o ran canlyniadau a achosir gan anfantais gymdeithasol-economaidd drwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

# ATODIAD

Bwriad yr adran hon yw rhoi trosolwg byr o'r dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Diben gwneud hynny yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus perthnasol, wrth iddynt baratoi ar gyfer y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd, yn ymwybodol o ddyletswyddau cydraddoldeb a llesiant eraill sy'n bodoli ochr yn ochr â'r ddyletswydd honno.

Gallai fod yn ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus perthnasol ddechrau meddwl sut y gellir arfer y dyletswyddau hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon, er enghraifft, er mwyn osgoi dyblygu gwaith pan fo'r dyletswyddau hyn yn gorgyffwrdd ac er mwyn mynd i'r afael â nhw mewn ffordd integredig.

Yn ogystal â'r prif ddyletswyddau a nodir isod, mae'n bosibl bod gan gyrff cyhoeddus unigol ddyletswyddau perthnasol eraill sy'n benodol iddyn nhw ac y byddent yn dymuno'u hystyried

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y canllawiau statudol y bwriedir eu cyhoeddi ym mis Medi 2020, pan fydd y ddyletswydd yn cael ei chychwyn, yn cynnwys rhagor o fanylion am y berthynas rhwng y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd a'r dyletswyddau cydraddoldeb a llesiant eraill, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd, a hefyd i ystyried y dyletswyddau statudol ehangach sydd arnynt mewn perthynas â chydraddoldeb a llesiant yng Nghymru.

Dyma'r prif ddyletswyddau perthnasol:

## DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>23</sup> ("Deddf 2010") yn nodi'r ddyletswydd cydraddoldeb sydd ar y sector cyhoeddus. Yn fyr, mae'n rhoi dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i:

- **Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;**
- **Hyrwyddo cyfrifoldeb rhwng pobl sydd â'r un nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad oes ganddynt y nodwedd honno;**
- **Meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â'r un nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad oes ganddynt y nodwedd honno.**

Dyma'r naw nodwedd warchoddedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Gan adeiladu ar Ddeddf 2010, aed ati mewn rheoliadau<sup>24</sup> penodol i Gymru i bennu dyletswyddau penodol yng Nghymru er mwyn helpu'r cyrff a restrir wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd cydraddoldeb. O dan y dyletswyddau penodol hyn, rhaid i gyrff datganoledig y sector cyhoeddus sydd ar y rhestr gyhoeddi amcanion cydraddoldeb ac adolygu'r amcanion hynny o leiaf bob pedair blynedd. Wrth i'r cyrff a restrir adolygu'r amcanion hynny, rhaid iddynt gynnwys pobl sydd ag un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r corff sector cyhoeddus yn ymgymryd â'i swyddogaethau.

Mae'n ofynnol hefyd o dan y ddyletswydd i'r cyrff a restrir adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y maent yn ei wneud o ran cyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb, ac i asesu'r effaith y mae polisiau ac arferion arfaethedig yn debygol o'u cael ar eu gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. O bryd i'w gilydd, rhaid i gyrff a restrir gynnal asesiad o'u gweithgareddau o ran sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, a rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad a gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

23. <https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-guidance>

24. The Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011




# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf) 2015<sup>25</sup> yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

Mae'n gwneud i'r 44 corff cyhoeddus a restrir yn Neddf 2015 feddwl mwy am yr hirdymor, ac am atal problemau rhag digwydd neu waethygu drwy gynnwys pobl a thrwy weithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant a fydd yn ein helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

## Y SAITH NOD LLESIANT



Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn cyfrannu'n bennaf at Cymru Fwy Cyfartal:

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

25. <https://futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>

Cyflwynodd Deddf 2015 yr egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i wneud yn siŵr eu bod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn awr, ac a fydd yn byw yma yn y dyfodol.

**Mae angen i gyrrff cyhoeddus feddwl am bum peth er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a elwir yn bum ffordd o weithio.**

## CYDWEITHREDU



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

## INTEGREIDDIO



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

## CYNNWYS



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

## TYMOR HIR



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

## ATAL



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Gyda'i gilydd, bwriad y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir ar eu cyfer gan y Ddeddf yw cefnogi a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

### **DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998**

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn pennu'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb yn y DU yr hawl iddynt. Mae'n ymgorffori'r hawliau sydd yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith ddomestig Prydain.

Cyngor Ewrop (yn hytrach na'r Undeb Ewropeaidd) luniodd y Confensiwn ac mae'n seiliedig ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, sef y cytundeb rhyngwladol cyntaf ar egwyddorion sylfaenol hawliau dynol, sy'n cael ei dderbyn gan bron pob gwladwriaeth yn y byd. Mae'r DU wedi llofnodi'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Datganiad Cyffredinol ac mae'n parhau'n ddarostyngedig iddynt.

Mae cychwyn y ddyletswydd yn rhoi'r cyfle inni wneud pethau'n wahanol yng Nghymru, gan sicrhau bod trechu tlodi yn rhan annatod o benderfyniadau strategol cyrff cyhoeddus perthnasol.

Yn y pen draw, bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud eisoes i fynd i'r afael â thlodi.

Mae cysylltiadau hefyd rhwng y gwaith hwn a'n bwriad i gryfhau trefniadau partneriaethau cymdeithasol a'r agenda Gwaith Teg, gan fod y ddau yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn ffyrdd gwahanol.